

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 11: CLEDDAU WEN

Lleoliad:

Mae'r ACT hon i'r dwyrain o Hwlfordd am y ffin â'r A40 tua'r gogledd a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro tua'r de. O arwynebedd cymharol fach, mae'n cynnwys afon Cleddau Wen sy'n llifo tua'r de allan o Hwlfordd, rhan fechan o bentref Uzmaston a ffermydd unigol mewn tir amaethyddol.



Yr olygfa ar hyd Church Hill Lane i'r de-orllewin



Yr olygfa ar hyd glan yr afon i mewn i Hwlfordd ar y rheilffordd a chroesfan Freemans Way.



Yr olygfa o Arnolds Hill o'r de i gyfeiriad Hwlfordd

Disgrifiad Cryno:

Yr ACT hon yn gyffredinol yw brithwaith o dir amaeth a choetir gyda chlystyrau o goetir cymysg a chaeau gyda choed aeddfed mewn gwrychoedd tal. Mae ffermydd gwasgaredig yn britho'r ardal ac mae golygfeydd i'r Aber i'w gweld. Wrth iddi adael Hwlfordd a llifo i'r Aber, mae

Cleddau Wen o fewn y ffin orllewinol ac yn ffurfio rhan o ddarn ehangach afon aberol a glannau a cheinciau cysylltiedig yr Aber.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaearog sylfaenol yw carreg laid Silwraidd yn bennaf, yn creu tirffurf bryniog braf sy'n codi i gefnen y mae'r A40 yn ei dilyn. Cleddau Wen a Merlin Brook, dyfroedd uchaf y 'ria' neu ddyffryn afon a foddwyd sy'n ffurfio Aber Cleddau.
- Y patrwm anheddu yw pentrefannau bach, ffermydd gwasgaredig gydag adeiladau cysylltiedig, anheddau ar eu pennau'u hunain, gan gynnwys tai bonedd ac absenoldeb aneddiadau, o fewn tirwedd o gaeau rheolaidd ac afreolaidd.
- Y dirwedd hon yw brithwaith o goetir a thir amaeth o ddolydd a chnydau mewn caeau afreolaidd mawr o fewn gwrychoedd terfyn gyda choed aeddfed. Mae nentydd a ffrydiau'n croesi'r ardal ac maen pontydd carreg traddodiadol yn cyfrannu at ei chymeriad.
- Mae golygfeydd allweddol i'r de dros yr afon i frithwaith coetir a thiroedd isel bryniog.
- Tra bo'r A40 yn mynd rhwng dwyrain a gorllewin ar hyd y terfyn gogleddol, mae lonydd cul yn croesi'r ardal ac yn rhoi mynediad at lwybrau ffermydd.
- Ychydig o henebion a gofnodwyd yn yr ardal er bod yr ardal ddwyreiniol oddi mewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Daugleddau.
- Mae'n ffurfio rhan o gylch ehangach o gymunedau Saesneg islaw'r Landsger.

Rhinweddau Allweddol

Mae ymdeimlad o lonyddwch wrth i'r tir ddisgyn i'r de o'r A40 sy'n ffurfio terfyn gogleddol llawer o'r ardal cymeriad tirwedd hon. Mae'n cadw cysylltiad cryf â'r Aber tua'r de lle mae cynefin y glannau a dŵr llanw symudol yn creu ymdeimlad o le a chysylltiad. At ei gilydd ei chymeriad yw amaethyddol yn hytrach na thir y glannau gydag absenoldeb aneddiadau mawr; mae pontydd carreg yn cynorthwyo cynnal ymdeimlad o gymeriad gwledig parhaol. Mae lonydd cul coediog dan ganopi collddail pan fo dail yn creu ymdeimlad o unigedd gyda golygfeydd cyfyngedig i mewn i'r dirwedd ehangach.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae adeiladau amaethyddol modern mawr o ffrâm ddur, blociau a llenfetel yn sefyll ochr yn ochr ag adeiladau amaethyddol traddodiadol mewn ffermydd mawr.
- Cadwyd pontydd carreg traddodiadol dros nentydd a ffrydiau.
- Cadwyd coed mewn gwrychoedd gan roi cymeriad tirwedd a chynefin.
- Caiff gwrychoedd eu cynnal yn briodol i raddau helaeth.
- Cyflwynwyd llwybr lluniaidd adloniadol ar hyd glan yr afon ger Hwlffordd.
- Absenoldeb llygredd goleuni a datblygiad ymwithiol.



Ardal adloniadol ger yr afon yn Hwlffordd



adeiladau fferm traddodiadol yn Arnolds Hill

Y Dyfodol

- Posibilrwydd camreoli coetir a therfynau caeau.
- Fe all dwysáu amaeth arwain at bwysau i godi adeiladau fferm ar raddfa fawr amhriodol i'r dirwedd hon a cholli terfynau caeau.
- Newid yn yr hinsawdd a dwysáu amaeth yn arwain at berygl llygru mwy ar yr afon.



Ffyrdd coediog a phont garreg ar yr ymyl dwyreiniol



Rheoli gwrychoedd yn rheolaidd a chadw coed

Pethau Sensitif Allweddol

- Brithwaith cymhleth o gaeau, tir gwlyb a chlytiau coetir.
- Ardal adloniadol a thirwedd ehangach yn cysylltu'n agos ag ymyl deheuol Hwlffordd.
- Patrwm datblygu adeiledig presennol ar raddfa fach, ystyriol o fewn y cymeriad gwledig.
- Llethrau bryniog yn cynnwys y ddyfrffordd ac amgylchedd aberol tawel.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Cadw Eglwys Slebets fel tirnod.
- Cyfyngu ar ehangu cyrion tref Hwlfordd i ardaloedd adloniadol.
- Cadw pontydd carreg traddodiadol a sicrhau gwneud unrhyw atgyweiriadau gyda deunyddiau a sgiliau traddodiadol.
- Gwrthsefyll cyflwyno adeileddau mawr a fertigol i'r ardal.
- Ailddefnyddio adeiladau amaethyddol traddodiadol yn briodol nad ydynt mwyach ar waith ar gyfer eu diben gwreiddiol.
- Cadw'r caeau rheolaidd ac afreolaidd presennol.
- Posibilrwydd mwy o fynediad adloniadol at lan yr afon.
- Sicrhau gwarchod rhagoriaethau heddychlon yr amgylchedd aberol, yn enwedig rhag datblygu anghydnaws, a llygredd goleuni a sŵn.



Tŷ annedd ar ei ben ei hun yn yr ardal



Yr A40 ar hyd y terfyn gogleddol.



Golygfeydd o safon dros yr afon lanw i'r gorlifdir y tu hwnt.

ACT Awdurdodau Cyfagos
APCAP: ACT 28 Daugleddau
SCA 33 Daugleddau

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 12: GWASTADEDDAU'R LANDSKER

Lleoliad:

Mae'r ACT mewn lle canolog ac yn union i'r gogledd-ddwyrain o Hwlfordd. Mae am y ffin â'r A40 tua'r de ac ar ei hyd yn gyffredinol yn y gorllewin. Ynddi mae pentrefi Llanhuadain, Cas-wis, Clarberston Road, Walton East, Spital, Cryndal a Threamlod. Ymhlith cysylltiadau cludiant yn yr ardal mae maes awyr Hwlfordd a'r rheilffordd i orllewin y sir. Mae Parc Gwledig Maenordy Scolton yn yr ardal hon.



Yr olygfa i mewn i ymyl deheuol Clarberston Road o'r de



Yr olygfa i'r gogledd o'r A40 ger Arnolds Hill



Golygfa adwy cae i'r gogledd-ddwyrain o fan ger Spital

Disgrifiad Cryno:

Yr ACT hon yn gyffredinol yw pentrefi a phentrefannau mewn gwastadedd bryniog brith o gaeau mawr agored a dolydd a chaeau â'r llai gyda choed aeddfed mewn gwrychoedd terfyn. Yma mae cymoedd coediog bach, gan gynnwys planhigfeydd conwydd, bob yn ail â ffermydd a thai annedd achlysurol. Mae Maes Awyr Hwlfordd a thramwyfeydd yr A40 a'r rheilffordd yn darparu cysylltiadau cludiant strategol ac mae rhwydwaith trwchus o ffyrdd cul a lonydd yn cris-croesi. Rhed nentydd a ffrydiau i Gleddau Ddu neu Gleddau Wen, gan gynnwys Nentydd Spital, Cartlett, Millin a Fenton a Rudbaxton Water.

Nodweddion Allweddol

- Mae'r ddaear sylfaenol yn amrywiol, ac yn cael ei hadlewyrchu yn y tir o gymoedd, llwyfannau cymedrol a glynnoedd rhanedig. Llechi a thywodfeini Ordofigaidd a Silwraidd sydd dan y tir isel bryniog, gyda dyddodion llifwaddodol a rhewlifol yn ffurfio rhan o'r gorlifdir isel.
- Amaethyddol yn bennaf, mae'r dirwedd yn cynnwys brithwaith o gaeau agored mawr a chymedrol, yn nodweddiadol gyda choed aeddfed mewn gwrychoedd terfyn. Mae rhai ardaloedd yn cynnwys clystyrau o gymoedd glannau coediog bach ac yn britho'r ardal mae ffermydd gwasgaredig a phentrefi bach achlysurol gyda lonydd rhyngddynt. Daw cymeriad cymharol 'amgaeedig' llawer o'r dirwedd o wrychoedd aeddfed a choetiroedd niferus.
- Glaswelltir wedi'i wella a thir â'r sydd bennaf gyda darnau bach o goetir collddail a chonifferaidd a phrysgwydd, ac mae darnau hirgul o goetir llydanddail lled-naturiol yn ymylu cymoedd afonydd gyda chynefinoedd glaswelltir cysylltiedig sylweddol.
- Mae pontydd carreg, gan gynnwys Llanhuadain, yn ychwanegu at y cymeriad ac yn caniatáu golygfeydd ar hyd cymoedd afonydd.
- Mae'r dirwedd hanesyddol yn gyfoethog ac amrywiol gyda nifer mawr iawn o safleoedd archeolegol o bob cyfnod, gan gynnwys ffordd Rufeinig, beddrodau crwn o'r oes efydd, llociau amddiffynedig o'r oes haearn, cestyll cloddwaith canoloesol, ac adeiladau fferm a thai bonedd o'r 19^{eg} ganrif a'r 20^{fed} ganrif.
- Yr A40 a'r rhwydwaith cefnffyrdd yw'r seilwaith pennaf, ond mae'r rheilffordd a maes awyr Hwlfordd yn ddylanwadol hefyd.
- Mae dylanwadau diwylliannol yn arwyddocaol gyda'r Landsger yn cynrychioli'r llinell o gestyll Normanaidd a godwyd i amddiffyn cymunedau Saesneg a sefydlwyd yn y de, ac yn dal i gael ei chydabod fel dylanwad diwylliannol lleol.

Rhinweddau Allweddol

Mae ymdeimlad cryf o lonyddwch draw o'r A40 (a'r maes awyr cyfagos) a'r rheilffordd. Mae'r dirwedd o ddolydd a thir â'r bryniog isel gyda gwrychoedd rheoledig, coed aeddfed a darnau bach o goetir, yn cyfuno gyda safleoedd ac anheddau hanesyddol i greu cymeriad gwyrddlas, bras a hirsefydlog. Mae anheddau'n gymharol fychan a chnewyllog. Yn hanesyddol, rhannwyd rhwng cymunedau Saesneg y de a Chymry Cymraeg y gogledd gan y 'Landsger', llinell o gestyll Normanaidd amddiffynadwy'n cynnwys Llanhuadain a Chas-wis, ac mae'r dylanwad diwylliannol hwn oedd yn gryf gynt yn aros fel cysylltiad gweddilliol. O dir uwch mae golygfeydd arwyddocaol allan o'r ardal, gan gynnwys y rhai tua'r gogledd, yn cwmpasu Mynydd Preseli, Castell y Garn i'r dwyrain, Coed Carreg Las a Canaston tua'r de a'r Parc Cenedlaethol y tu hwnt.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Cyfyngwyd datblygiadau ynni adnewyddadwy mawr, gan gynnwys ffermydd solar i'r gogledd ac i'r dwyrain o Hwlfordd ac maent yn gyffredinol hunangynhwysol.
- Addaswyd adeiladau fferm traddodiadol yn llety preswyl neu wyliau ac mae cyflwyno adeiladau fferm ar raddfa fawr i gynorthwyo arferion amaethyddol modern yn parhau.
- Cyflwynwyd planhigfeydd conwydd, yn enwedig ar hyd yr A40.
- Mae anheddau'n hunangynhwysol ac yn cadw ymylon pendant yn gyffredinol.
- Mae adeiladau a safleoedd hanesyddol yn britho'r ardal.
- Fe all llygredd goleuni ollwng o ymyl Hwlfordd i'r ardal, yn enwedig o ddatblygiadau masnachol, chwaraeon ac ysgolion.



Adeiladau amaethyddol mawr modern ger Cas-wis



Mae planhigfeydd conwydd i'r gogledd o gastell Llanhuadain yn ddylanwadau modern ar y dirwedd.

Y Dyfodol

- Parhad moderneiddio a mwyhau adeiladau amaethyddol ac effaith o ganlyniad ar gymeriad lleol.
- Cwmpo darnau o goetir conifferaidd a phosibilrwydd ailddefnyddio tir.
- Pwysau parhaus ac ychwanegol am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.
- Posibilrwydd ehangu anheddau ac ymestyn i gefn gwlad agored.



Ymyl anheddiad pendant Clarberston Road



parc ynni solar ger Cas-wis yn swatio yn y dirwedd

Pethau Sensitif Allweddol

- Effaith ar batrymau trefwedd hanesyddol a chanoloesol gan gynnwys darnau o lain-gaeau canoloesol sy'n aros, gan gynnwys yn Ambleston a Chryndal.
- Effaith dwysáu mwy ar arferion amaethyddol ar gymeriad adeiladau amaethyddol yn y dirwedd a phatrymau a therfynau caeau.
- Effaith bosibl datblygiadau ynni adnewyddadwy cronol
- Mae ardaloedd dwyreiniol yn agored i lygredd goleuni ychwanegol.
- Ymylon anheddau amhendiant wrth roi lle i ddatblygiad newydd.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Rheoli gwrychoedd a rheolaeth amaethyddol sy'n cynorthwyo cadw a chyfoethogi cynefin.
- Cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol ac archeolegol a, phan fo hynny'n briodol, gwella mynediad cyhoeddus a gwybodaeth am gysylltiadau diwylliannol.
- Ailblannu planhigfeydd coniferaidd gyda rhywogaethau llydandail brodorol neu agor y planhigfeydd i wella bioamrywiaeth a gwerth adloniadol.
- Datblygiad adeiledig y dyfodol sy'n gwella cymeriad anheddau ac ymylon trefol pendant.



Mae castell Llanhuadain yn rhan o linell amddiffynfeydd hanesyddol y Landsger



Pont y Santes Catrin dros Gledau Wen



Llwybr ceffylau dan ganopi'n rhoi bioamrywiaeth a chyfleoedd adloniadol.

ACT Awdurdodau Cyfagos
APCAP: ACT 28 Daugleddau
Ardal Nodwedd Morwedd 33 Daugleddau

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 13: LLANDUDOCH

Lleoliad:

Mae'r ardal hon ar ymyl gogledd-ddwyreiniol eithaf y sir rhwng y Parc Cenedlaethol a Cheredigion.



Llandudoch ar y glannau



Yr olygfa ar draws yr ardal i'r Parc Cenedlaethol ger Llandudoch



Yr olygfa i'r gorllewin o fan ger Llantwyd

Disgrifiad Cryno:

Ffurfiwyd yr ardal hon yn gyffredinol o dirwedd amaethyddol isel fryniog gydag amrywiaeth o gaeau rheolaidd ac afreolaidd mawr a bach gyda chloddiau a gwrychoedd terfyn o reolaeth amrywiol, a glannau gorllewinol Afon Teifi. Datblygiad adeiledig yw ffermydd gwasgaredig ac anheddau yma ac acw, gydag anheddiad cyffredinol hirgul Llandudoch yn ffurfio'r unig bentref.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaearreg yn bennaf yw prosesau rhewlifol a ffrwd-rewlifol yn y gorffennol a dyddodion tywod, gro a chlog-glai / dyddodion brynau. Mae cerrig llaid llechog Ordofigaidd yno hefyd gyda darnau sylweddol o ddyddodion rhewlifol drostynt.
- Anheddiad hirgul traddodiadol yw pentref Llandudoch gyda rhai tai modern diweddar ger tro Afon Teifi. Mae defnyddio deunyddiau modern yn cyferbynnu ag adeiladau carreg traddodiadol y pentref.
- Mae'r dirwedd amaethyddol o dir amaeth bryniog yn cynnwys ffermydd gwasgaredig a niferoedd cyfyngedig o anheddau ar eu pennau'u hunain. Ffurfiwyd y dirwedd o gaeau rheolaidd ac afreolaidd mawr a bach o fewn gwrychoedd a chloddiau terfyn gyda choed ynddynt ac eithin a rhesi cul o goed a phrysgwydd ar hyd nentydd.
- Lle mae'r ardal nodwedd hon yn ymestyn i'r morfa heli a thwyni isel ar bwys yr aber rhynglanwol, mae dylanwadau'r môr ar y newid rhwng môr a thir sych yn ffurfio rhan o forwedd arfordirol gwyllt, agored a byrhoedlog.
- Yng ngogledd yr ardal mae tirwedd hanesyddol Pen Isaf Dyffryn Teifi. Tyfodd Llandudoch o gwmpas adfeilion yr Abaty Canoloesol ac mae adeiladau rhestredig niferus yn y dref ynghyd ag eglwys y plwyf o'r 19^{eg} ganrif yn ffurfio craidd yr Ardal Gadwraeth. Yn yr ardal ehangach mae elfennau archeolegol arwyddocaol yn cynnwys beddrod crwn cynhanesyddol a phwll bedyddio.
- Mae'r dirwedd ddiwylliannol yn cadw ymdeimlad cryf o le ac fe'i ffurfiwyd o bentref Llandudoch a'i Abaty, a'r wlad oddi amgylch. Mae'n cadw llawer o siaradwyr Cymraeg a thraddodiadau diwylliannol lleol.
- Cynefinoedd yn bennaf yw glaswelltir wedi'i wella gydag ychydig o dir â'r yn ne'r ardal, darnau bach bach o goetir collddail a chonifferaidd, prysgwydd a rhedyn sy'n ychwanegu diddordeb i'r glaswelltir wedi'i wella.

Rhinweddau Allweddol

Mae lleoliad Llandudoch ar yr aber yn rhoi ymdeimlad cryf o le i'r ardal. Mae'r golygfeydd a seiniau, gan gynnwys adar ac arogleuon o'r aber a'r afon, yn creu ymdeimlad o adloniant morol, tawelwch a llonyddwch. Gyda golygfeydd deniadol i mewn i'r ardal ac allan ohoni, y dirwedd aberol i'r dwyrain a'r cefndir gwledig mae'n creu ymdeimlad cryf o le a dinoethiad sy'n cael ei atgyfnerthu gan yr eithin a choed a gamwyd gan y gwynt ar dir uwch. Mae anheddiad hanesyddol Llandudoch ac adfeilion ei Abaty'n cysylltu â'r gorffennol gan greu ymdeimlad o'r hirsefydlog, fel y gwna golygfeydd allan dros Aberteifi.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae rheoli caeau amaethyddol a therfynau cysylltiedig yn amrywiol ac mae bylchau a ffensys pyst a gwifrau wedi ymddangos.
- Datblygodd pentref Llandudoch ar hyd y lan ac mae'n cadw'r cefndir coediog i ffurfio amgylchedd coetir deniadol.
- Trwy ddynodi fel Ardal Gadwraeth yn Llandudoch, ceisiwyd cyfoethogi a chadw'r amgylchedd adeiledig.
- Ychydig ddatblygiad modern sydd yn y dirwedd i'r gogledd o Lan-rhyd ac ychydig ymwithiad i rwystro gweledd dros elfennau tirwedd sydd wedi goroesi'n helaeth.



Yr olygfa i mewn i Llandudoch o'r de



Llandudoch ar lan y dŵr

Y Dyfodol

- Posibilrwydd gorlifo ardaloedd arfordirol isel.
- Posibilrwydd llygredd goleuni a allai ollwng i gefn gwlad a'r amgylchedd dŵr.



Abaty Llandudoch



Yr olygfa allan o'r ardal i safle carafanau ar y lan

Pethau Sensitif Allweddol

- Tystiolaeth o'r amgylchedd hanesyddol trwy ddynodi Ardal Gadwraeth, adeiladau rhestredig, Henebion Rhestredig ac yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Dyffryn Teifi Isaf yn rhannol o leiaf.
- Mae patrwm tirwedd cefn gwlad yn aros i raddau helaeth a gallai datblygiad modern anystyriol erydu hyn.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Gwarchod arwyddocâd archeolegol Abaty Llandudoch a cheisio cefnogi ei werth twristaidd a'i ddehongli.
- Cynnal a gwarchod terfynau caeau traddodiadol.
- Ceisio cynnal natur hunangynhwysol yr amgylchedd adeiledig yn Llandudoch.
- Cadw patrwm anheddu a golwg adeiladau traddodiadol a gwarchod elfennau tirwedd hanesyddol.



Rheoli gwrychoedd cymysg



Lôn goediog




Adeilad gwledig

ACT Awdurdodau Cyfagos
APCAP: ACT 25 Trwyn Cemais
SCA1: Aber Afon Teifi

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 14: CYMOEDD COEDIOG AFON CYCH AC AFON TAF

Lleoliad:

Mae'r ardal hon yn yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro Am y ffin â Cheredigion a Sir Gâr.



Llawr dyffryn Afon Cych



Golygfa agos o lawr dyffryn nodweddiadol



Dyffryn coediog yn y dirwedd ehangach yng Nghwm Ffrws

Disgrifiad Cryno:

Ffurfiwyd yr ardal hon yn gyffredinol o gymoedd coediog cul llawr gwlad, gyda chellioedd trwchus o goetir cymysg a nentydd cyflym ar hyd lloriau'r dyffrynnoedd. Wedi'u cysylltu ag ardaloedd o borfeydd gwlyb garw a choetir llydanddail sy'n caniatáu golygfeydd benthyg i dir amaeth bryniog cyfagos. Mae diffyg anheddiad cyffredinol yn y cymoedd cul, er bod ffermydd a grwpiau adeiladau fferm o fewn y darnau cul o dir amaethyddol, ynghyd â Llanfrynach, Glandwr a Chilgerran. Mae Canolfan Bywyd Gwyllt Cilgerran yn rhannol yn yr ardal.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaearog sylfaenol yn y cymoedd yw dyddodion rhewlifol a ffrwd-rewlifol, sianelau dŵr tawdd a chymoedd hiciog isafonydd; a gorlifdiroedd gyda chreigwely o lechen Ordofigaidd a gloddiwyd mewn mannau ond sydd bellach yn anghyfannedd.
- Ffurfiwyd yn bennaf o gymoedd coediog dolennog, cymharol gul o goetir llydanddail o oed cymysg a nentydd yn ffurfio blaenddyfroedd Afon Teifi, Afon Taf ac Afon Gafel. Ar loriau'r cymoedd neu uwchlaw iddynt mae darnau bach o gaeau rheolaidd o fewn cloddiau a gwrychoedd terfyn, bob yn ail â phorfeydd gwlyb garw.
- Mae'n rhannol o fewn tirwedd hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf a, thra bo'r ardal ehangach yn llawn cofnodion cynhanesyddol, canoloesol ac ôl-ganoloesol gan gynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, a Henebion Cofrestredig, ychydig ohonynt sydd yn yr ardal ei hun a chanoloesol yn bennaf.
- Y patrwm anheddu yw nifer cyfyngedig o anheddau, ffermydd a rhai tai annedd ar eu pennau'u hunain. Bu rhywfaint o adeiladu o'r newydd ac mae'n adlewyrchu deunyddiau traddodiadol mewn cartrefi tra bo adeiladau newydd ffermydd yn tueddu i fod o ffrâm ddur gyda gorchudd o lenni dur neu bren.
- Mae aneddiadau adeiledig, gan gynnwys Cilgerran yn arwahanol. Mae ei gastell hanesyddol yn amlwg uwchlaw'r cwm serth, gyda deunyddiau cydnaws yn gyffredinol mewn datblygiad modern.
- Ymhlith dylanwadau diwylliannol mae'r Gymraeg a deunyddiau adeiladu a chymeriad anheddu traddodiadol, gyda'r Gymraeg a'i hetfeddiaeth ddiwylliannol yn aros yn gryf.
- Cynefinoedd yw coetir hirgul, collddail yn bennaf ar hyd y cyrsiau dŵr ac yn debygol o gynnal rhywogaethau mwy cyffredin y Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth a rhywogaethau a ddynodwyd o fewn disgrifiad yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae darnau o laswelltir wedi'i wella'n cynnwys tir â'r phorfa.
- Yn croesi'r ardal mae rhwydwaith o isffyrdd a llwybrau heb ddim priffyrdd.

Rhinweddau Allweddol

Mae cymoedd coediog cryno gyda choetir cymysg trwchus yn arwain at amgylchedd cysgodol, tawel a digynnwrf, gyda dim ond sŵn nentydd cyflym yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad o le a'r seinwedd leol. Yma ac acw, mae golygfeydd benthyg o Fynydd Preseli a golygfeydd i'r ardal o dirwedd amaethyddol fryniog o gwmpas yn nodweddiadol o dirwedd ucheldir Sir Benfro. Mae'r ychydig ddatblygiad ac ymdeimlad o amgaead yn cyfrannu at y teimlad o bellenigrwydd sy'n cael ei ennyn. Daw llygredd goleuni o anheddau oddi allan i'r ardal, gan gynnwys Crymych, gan effeithio'n lleol. Mae adeiladau hanesyddol yn creu ymdeimlad cryf o le a hanes.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae ansawdd rheoli amaethyddol yn amrywio'n fawr, ac fe all rheoli coetir effeithio ar olygfeydd lleol.
- Yn gyffredinol aeth chwareli bach blaenorol yn ôl i natur.



Clirio conwydd



Golygfeydd ar draws yr ardal

Y Dyfodol

- Fe all pwysau datblygu i ymestyn anheddau presennol arwain at batrymau anheddu anhraddodiadol.
- Fe all pwysau dwysáu amaethyddol erydu ardaloedd coediog, a chyflwyno pwysau i gyfuno daliadau ac adeiladau amaethyddol mwy.
- Parhad aildyfiant naturiol dros chwareli blaenorol.



Castell Cilgerran



Mynedfa goediog i bentref

Pethau Sensitif Allweddol

- Colli neu ddiraddio coetir llydanddail.
- Newidiadau i'r patrwm caeau presennol.
- Codi adeileddau fertigol o faint amhriodol yn y dirwedd.
- Posibilrwydd effeithio ar gymunedau Cymraeg.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Sicrhau bod rheoli coetir tymor hwy'n briodol, gan gynnwys gadael pren cwmp yn y fan lle mae, cefnogi rhywogaethau collddail (yn lle conifferaidd) a chymysgedd oedrannau ynghyd â'r parth glannau agored.
- Dylai datblygiad adeiledig y dyfodol ddal i gyfrannu at gymeriad traddodiadol adeiladau newydd ac adnewyddiadau.



Enw stryd



Eiddo gydag wyneb traddodiadol yng Nghilgerran




Pren cwmp yn ei le

ACT Awdurdodau Cyfagos
APCAP: dim
Ceredigion
Ardaloedd Tirwedd Arbennig Cyngor Sir Gâr: Dyffryn Teifi

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 15: BONCATH

Lleoliad:

Mae'r ardal hon yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro am y ffin â Cheredigion a Sir Gâr mewn mannau.



Yr olygfa i'r gorllewin i Frenni Fawr



Yr olygfa i'r de-orllewin o fan ger Bwlch y Groes



Yr olygfa i'r dwyrain i gyfeiriad Cilgerran

Disgrifiad Cryno:

Ffurfiwyd yr ardal hon yn gyffredinol o dir amaeth uchel bryniog gydag ychydig ddarnau o rostir pori ar bennau bryniau mwy agored. Mae darnau bach o goetiroedd hirgul yma ac acw ar hyd lloriau cymoedd cul gyda nentydd yn llifo i Afon Taf, ac ychydig blanhigfeydd conwydd ar lethrau bryniau. Yn amlach nag mewn mannau eraill yn Sir Benfro mae anheddau o gymeriad hirgul ac yn cadw traddodiad diwylliannol Cymraeg cryf.

Mae'n cynnwys anheddau Crymych, Boncath, Eglwyswrw, Hermon, Tegryn, Y Capel Newydd a rhan o Abercych yn ogystal ag amrywiaeth eang o bentrefi bach a phentrefannau.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaearreg yn bennaf yw llechi a thywodfeini Ordofigaidd yn ffurfio llethrau isaf Mynydd Preseli tua'r gogledd-ddwyrain. Mae'r tir yn bantiau a brynau crwm wedi'u torri gan gymoedd ar hyd ymylon gogleddol a dwyreiniol yr ardal, gan ddatblygu cymoedd dyfnion tua'r de-ddwyrain. Hefyd mae gorlifdir / mariandir cul yn yr ardal ynghyd â dyfroedd uchaf Afon Nyfer a'r cyfan yn debygol o fod dros ddyddodion rhewlifol a gwaelodion ochrau serth cymoedd cyfagos wedi mewnlenni.
- Mae ardal o dir amaeth bryniog uchel gyda darnau o borfa gyda chymeriad rhostir / gweundir ar bennau brynau mwy agored, gan gynnwys y Frenni Fach a'r Frenni Fawr, gyda'i phlanhigfa gonwydd, a llethrau isaf a amgaewyd ar gyfer amaethyddiaeth a ffermydd gwasgaredig.
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal yn cadw diwylliant Cymraeg o arwyddocâd lleol ac roedd yno anniddigrwydd cymdeithasol yn ystod rhyfeloedd degwm y 19^{eg} ganrif. Mae'r ddau anheddiad gwledig yn gymunedau diwydiannol blaenorol gan gynnwys y Glog a Hermon, gyda Chrymmych yn dod yn ganolbwynt gweithgaredd diwylliannol Cymraeg yn ystod yr 20^{fed} ganrif. Mae Dyffryn Teifi'n nodedig hefyd am barhad y Gymraeg ac am ei anheddiad hanesyddol.
- Mae cynefinoedd yn amrywio dros yr ardal a, thra bo ardaloedd sy'n laswelltir wedi'i wella'n bennaf yn cynnwys caeau a'u terfynau, mae ardaloedd o ffermio tir â'r choetir collddail hirgul, gyda darnau o laswelltir sur a rhostir sych yno. Mae'n debygol y bydd rhywogaethau LBAP mwy cyffredin a phosiblirwydd rhywogaethau pwysig yn y dynodiad ACA ar ymyl gogleddol yr ardal.
- Mae anheddau o gymeriad mwy hirgul yn eu craidd hanesyddol nag mewn mannau eraill yn Sir Benfro ac, os ydynt yn uchel, fe allant roi ymdeimlad o ddinoethiad, Er bod datblygiad mwy diweddar wedi tarfu ar y ffurf a chyfanrwydd at ei gilydd, mae deunyddiau o furiau wedi'u rendro a theils toeau'n adlewyrchu cymeriad mwy traddodiadol yr ardal yn gyffredinol.
- Ymhlith elfennau archeolegol arwyddocaol mae henebion angladdol a defodol cynhanesyddol, adeileddau a safleoedd ôl-ganoloesol, a rhan o'r parciau a gerddi cysylltiedig â phlasau'r bonedd yn Ffynone a Chilwendeg. Hefyd mae yno chwareli ôl-ganoloesol ac amrywiaeth o adeiladau rhestredig.
- Mae'r A478 yn mynd rhwng gogledd a de drwy'r ardal gyda thraffig yn amlwg yn lleol.

Rhinweddau Allweddol

Mae golygfeydd i Fynydd Preseli tua'r gorllewin a golygfeydd allan dros dir amaeth ac i'r arfordir tua'r gogledd-orllewin yn y dirwedd ehangach yn rhoi ymdeimlad o le ac ehangder i'r ardal hon. Yn lleol, caiff ei ystyried bod gan Fynydd Preseli draddodiadau diwylliannol cryf. Ar y copaon mae'r rhostir a chraig agored yn ychwanegu at y nodwedd ddeniadol. Fe all tiroedd uchel ennyn ymdeimlad o bellnigrwydd a dinoethiad gyda choed isel a blygwyd gan y gwynt yn atgyfnerthu hynny.

Tua'r gorllewin, mae tirwedd fryniog eang, gyda golygfeydd allan i Fynydd Preseli, yn creu ymdeimlad cryf o le a chydberthynas ag ardaloedd cyfagos, gan gynnwys cymoedd hiciog Afon Cych ac Afon Taf, sy'n torri drwy'r dirwedd. Fe all tir uchel gynnwys rhostir a chraig agored sy'n ychwanegu at amrywiaeth ac atyniad tirweddau cefn gwlad. Fe all anheddau traddodiadol fod o'r neilltu ym mhlygion y dirwedd neu'n sefyll yn amlwg fel datblygiadau hirgul ar hyd cribau bas.

Mae ymdeimlad o lonyddwch draw o briffyrdd prysur a, thra bo tyrbinau gwynt yn weladwy ar draws y dirwedd, nid ydynt yn trechu.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae mwy a mwy o adeiladau amaethyddol modern cysylltiedig â'r unedau fferm unigol sydd o raddfa a chymeriad anghydnewws â'r ardal ac yn elfen gynyddol sy'n difetha'r dirwedd.
- Tystiolaeth o dirwedd amaethu cymysg yw'r amrywiaeth eang o gyfundrefnau rheoli ac ansawdd.
- Daw ffensys pyst a gwifrau i'r amlwg, yn enwedig i atgyfnerthu gwrychoedd terfyn wrth i wrychoedd fynd yn fylchog a chael eu rheoli'n wael.
- Mae datblygiadau cartrefi modern wedi tueddu i ddynwared ffurf a graddfa draddodiadol ac mae deunyddiau muriau a thoi'n ategu dulliau traddodiadol.
- Mae'r ardal yn cynnwys swm sylweddol o ddatblygu anghydnewws diweddar fel defnyddio blociau / llenfetel mewn adeiladau manwerthu a stadau tai brics modern, er bod carreg a rendro i'w gweld mewn adeiladau newydd ac estyniadau.
- Mae golwg warysau a datblygiadau manwerthu'n anghydnewws â chymeriad yr ardal ger Crymbych.
- Mae datblygiadau un blaned wedi darnio'r dirwedd amaethyddol draddodiadol.



Coed yn fframio lôn wledig



Clawdd uchel

Y Dyfodol

- Gallai pwysau am blanhigfeydd conwydd newydd a dwysâd amaethyddol erydu cymeriad pori'r ucheldir a pheri colli terfynau caeau, yn enwedig gwrychoedd a chloddiau.
- Pwysau am ragor o adeiladau amaethyddol mawr.
- Mwy o bwysau adloniadol anffurfiol.



Tyrbín gwynt



Pentref hirgul Tegryn

Pethau Sensitif Allweddol

- Mae terfynau caeau, coetiroedd, gweundir a rhostir yn cynorthwyo diffinio cymeriad lleol a dylid eu cadw.
- Cysylltiad anheddau â'r dirwedd ehangach ac yn enwedig ffurfiau adeiledig a thrin terfynau anheddu.
- Mae defnyddio deunyddiau modern ac anghydnaws mewn datblygu amhriodol yn peryglu craidd hanesyddol anheddau.
- Colli a gwanychu'r Gymraeg a thraddodiadau diwylliannol.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Mae lle i wella cymeriad adeiladau fferm.
- Gwarchod cymeriad gweundir a rhostir rhannau uchaf Mynydd Preseli, ar yr un pryd â rheoli twristiaeth.
- Sicrhau bod datblygu'n parchu dylunio brodorol lleol.
- Sicrhau bod datblygu o faint a lleoliad i warchod a hyrwyddo diwylliant Cymraeg.
- Cyfyngu ar ddarnio a chyflwyno adeiladau yn y dirwedd lle byddent yn effeithio'n negyddol.



Elfennau caeau hanesyddol a modern



Adeiladau fferm traddodiadol



Fferm gryno

ACT Awdurdodau Cyfagos

APCAP: ACT 25 Trwyn Cemais; ACT 26 Cwm Gwaun / Afon Nyfer; ACT 27 Mynydd Preseli

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 16: DE CLEDDAU DATBLYGEDIG

Lleoliad:

Mae'r ACT hon ar lan ddeheuol Aber Cleddau ac fe'i ffurfiwyd o drefi Doc Penfro ar lan y dŵr a thref Penfro ymhellach i'r tir tua'r de.



Castell Penfro o Northgate Street



Doc Penfro o Hobbs Point



Penfro o St Daniels Hill i'r de o'r dref

Disgrifiad Cryno:

Yr ACT hon yw tref Doc Penfro sy'n cynnwys datblygiad modern, gan gynnwys manwerthu a diwydiant ysgafn yn ogystal ag adeiladau Sioraidd traddodiadol yn enwedig yng nghraidd y dref a drefnwyd ar gynllun grid, ac Iard Longau Frenhinol flaenorol tua'r gorllewin. Datblygodd y dref i gynnal swyddogaeth adeiladu llongau'r Iard Longau Frenhinol ac mae dylanwadau llyngesol ffurfiol yn dal yn amlwg ym mhatrwm grid ac iard longau hanesyddol y dref. Mae Fferi Penfro'n gweithredu o'r Iard longau.

Mae cysylltiad gweithredol rhwng tref Penfro a Doc Penfro, gyda diddordeb hanesyddol o bwys. Saif Castell Penfro, a ailadeiladwyd, a muriau'r dref ganoloesol yn amgáu lleiniau bwrdais cul

ar hyd crib galchfaen gyda'r Stryd Fawr yn mynd o un pen i'r llall. Cododd a chiliodd ffyniant Penfro gyda threigl amser. Fodd bynnag, yn ystod y 19^{eg} ganrif a'r 20^{fed} ganrif, ehangodd Penfro i anheddau cynharach gan gynnwys Cil-maen. Mae Penfro'n gweithredu fel canolfan gwasanaeth a marchnad i'r cylchoedd amaethyddol o amgylch.

Deil Doc Penfro a Phenfro i fod â swyddogaethau cyflenwol a chydberthynas gref sy'n cyfiawnhau un ardal nodwedd.

Nodweddion Allweddol

- Ffurfiwyd y ddaear sylfaenol i raddau helaeth o galchfaen garbonifferaidd, gan gynnwys y grib isel ym Mhenfro. Dros lawer o'r ardal mae datblygu trefol a diwydiannol ac ychydig o nodweddion daearegol naturiol sy'n aros.
- Tir isel bryniog sy'n rhoi cyd-destun amaethyddol yn bennaf [oddi allan i'r ardal] datblygiad adeileidig y trefi tra bo'r patrwm anheddu'n cynnwys dwy dref Penfro a Doc Penfro sydd ar wahân, gyda swyddogaethau cyflenwol yn sail i'w perthynas.
- Mae darnau helaeth o ddatblygiad yn eu creiddiau hanesyddol o natur draddodiadol. Fodd bynnag, ar ymyl anheddau, mae datblygiad yn llai priodol, gydag adeiladau preswyl modern i'w gweld nad ydynt yn gydnaws â chymeriad traddodiadol.
- Tra bo rhesi traddodiadol o fythynnod carreg a thai tref Fictoraidd a Sioraidd wedi'u rendro a'u phaentio'n lliwiau golau wedi colli nodweddion gwreiddiol mewn mannau, maent yn creu ymdeimlad cryf o gymeriad hanesyddol at ei gilydd yn y ddwy dref, er bod blaenau llawer o dai ym Mhenfro'n cuddio adeiladau hŷn.
- Mae niferoedd sylweddol o Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth ym Mhenfro a Doc Penfro a Henebion Cofrestredig, gan gynnwys Castell Penfro.
- Caiff yr ymdeimlad o le ei atgyfnerthu gan olygfeydd i gyfeiriad Aberdaugleddau o Ddoc Penfro ac, ym Mhenfro, i'r Castell ac ohono fel canolbwynt eglur.
- Mae colli prosesau diwydiannol wedi lleihau'r dylanwad diwylliannol oedd gynt yn gryf ac, wrth i ddylanwadau diwylliannol newydd ymddangos, gan gynnwys cyfleoedd newydd i'r lard Longau a gweithgaredd porthladd, mae'r cyd-destun diwylliannol yn datblygu.
- Y rhwydwaith cefnffyrdd yw'r prif ddylanwad ar y patrwm ffyrdd gyda'r A477 yn rhoi mynediad i borthladd y fferi yn Noc Penfro a thros Bont Cleddau i Hwlfordd a gogledd y sir. Mae'r prif lwybrau i ddwyrain a de'r sir yn mynd drwy Benfro ac yn dod â thraffig i ganol y dref hanesyddol.

Rhinweddau Allweddol

Lluniwyd datblygiad hanesyddol y trefi hyn gan adeiladau, gosodiadau ffurfiol, gweithgaredd, diwydiant a phobl. Tra bo gwahaniaeth sylweddol rhyngddynt o ran ffurf adeileddol a tharddiad, mae'r gydberthynas a ddaeth trwy ddatblygu lard Longau Penfro yn y 18^{fed} ganrif yn dal yn gryf ac yn helpu llunio'u rhannau diwylliannol modern. Mae'r ddwy dref yn cadw treftadaeth hanesyddol arwyddocaol gyda llawer o adeiladau rhestredig braf, henebion rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Caiff cymeriad ac ymdeimlad o le ei ddiffinio gan adeiladwaith carreg noeth a rendro wedi'i baentio mewn lliwiau golau a mannau agored a'u cysylltu ag aber Cleddau. Mater o bwys ar hyd tramwyfeydd yn y trefi yw traffig. Mae llawer o draffig yn amharu ar unrhyw ymdeimlad o lonyddwch ar hyd y llwybrau hyn gan gynhyrchu sŵn lleol, llygru'r awyr (mae'r Stryd Fawr yn Ardal Rheoli Ansawdd yr Awyr) ac aflonyddu. Mae golygfeydd i mewn i'r trefi (ar draws Dyfrffordd Aberdaugleddau o ran Doc Penfro) ac i mewn i Gastell Penfro ac allan ohono, yn helpu atgyfnerthu ymdeimlad o le fel y gwna golygfeydd a seiniau'r dŵr a diwydiant.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae datblygiad ar ymyl y trefi wedi ehangu allan o'r creiddiau hanesyddol heb fod yn gydnaws â chymeriad, ac yn llai deniadol na'r creiddiau hanesyddol yn gyffredinol.
- Mae tuedd o ddirywiad yng nghyflwr cylchoedd datblygedig hanesyddol a modern, yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd sydd ohoni ar waethaf gwaith blaenorol yn y parth cyhoeddus a phreifat.
- Mae datblygu masnachol a diwydiannol modern yn cyfrannu at lawer o lygredd goleuni.
- Datblygodd cysylltiad agos â'r amgylchedd dŵr gyda datblygiad hanesyddol y trefi, gan gynnwys glanfeydd, wrysau a'r iardiau adeiladu llongau yn Noc Penfro, tuag at fynediad gweithredol i borthladd y fferi yn Noc Penfro a gwerth adloniadol ym Mhyllau Melin Penfro.
- Mae Penfro'n amlwg fel cyrchfan ymwelwyr, sy'n cael ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth o siopau, caffis a llety yn y dref. Mae Doc Penfro'n darparu ar gyfer anghenion manwerthu cyffredinol de-orllewin Sir Benfro ond mae wedi dioddef llawer o adeiladau gwag yn y blynyddoedd diwethaf.
- Mae effeithiau traffig a chlodiant wedi creu materion amwynder a llygredd ar hyd llwybrau allweddol.



Datblygiad modern ar ymyl Penfro



Eiddo gwag yn Dimond Street Doc Penfro

Y Dyfodol

- Fe all datblygiad adeiledig y dyfodol danseilio cymeriad hanesyddol y trefi hyn, gan gynnwys mewn pyrth allweddol a mannau ar gyrion y trefi lle mae angen gofal i gadw amgylchedd adeiladau ac ardaloedd allweddol gan gynnwys Castell Penfro.
- Byddai posibilrwydd datblygu mwy, gan leihau'r gwahaniad rhwng Penfro a Doc Penfro, yn effeithio ar hunaniaeth y trefi ac yn cyfrannu at ymledu trefol.
- Gellid manteisio'n ystyriol ar werth adloniadol yr amgylchedd dŵr.
- Dylai dyluniad unrhyw ddatblygiad ar yr ymyl trefol, ac ar bwys tir amaeth o gwmpas, yn y dyfodol fod yn gydnaws.
- Gallai prosiectau adfer a manteisio ar asedau hanesyddol gynyddu atyniad twristaidd a'r cydgysylltiadau rhwng Doc Penfro a Phenfro.
- Bydd perygl llifogydd yn parhau mewn ardaloedd isel.
- Amddiffyn a gwella Seilwaith Gwyrdd a'r berthynas ofodol rhwng lleoedd i helpu cynnal cadwraeth natur a chymeriad trefol.



Mae Stryd Fawr Penfro'n llawn traffig



Mae Dimond Street Doc Penfro'n rhan o batrwm grid y dref

Pethau Sensitif Allweddol

- Colli elfennau hanesyddol o'r amgylchedd adeiledig a'r effaith ar amgylchedd adeiladau hanesyddol.
- Datblygu amhriodol ar yr ymyl trefol, a'i effaith ar gymeriad a pherthynas y trefi.
- Colli tir agored a seilwaith gwyrdd a'r effaith o ganlyniad ar gymunedau, cyfleoedd bioamrywiaeth ac atyniad.
- Colli gweithgaredd economaidd a masnachol o'r trefi.
- Cynnydd mewn llygredd goleuni masnachol a diwydiannol a'i effaith.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Gwarchod cymeriad traddodiadol a hanesyddol y trefi trwy gynnal a chadw adeiladau hanesyddol yn briodol ac ystyriol.
- Sicrhau bod goleuo'r dyfodol yn ystyriol a phriodol i'w leoliad a'i effaith ar yr amgylchedd hanesyddol, bioamrywiaeth a chymeriad.
- Gwella ac ymestyn mynediad adloniadol i gefn gwlad ac ardaloedd arfordirol.



Mynedfa'r fferi yn Noc Penfro



Y Comins Penfro



Datblygiad Rocky Park Penfro

ACT Awdurdodau Cyfagos

APCAP: ACT – dim

Ardaloedd Nodwedd Morwedd SCA32 Aberdaugleddau Mewnol

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 17: UCHELDIR MYNYDD PRESELI

Lleoliad:

Mae'r ACT hon yn union i'r de o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro Mynydd Preseli.



Golygfeydd ar draws yr ardal tua'r gogledd i gyfeiriad y Parc Cenedlaethol



Dyffryn coediog i'r dwyrain o Gastell Henri



Yr olygfa i'r de dros yr ardal i Llys-y-frân tua'r de

Disgrifiad Cryno:

Yr ACT hon yn gyffredinol yw tirwedd amaethyddol ucheldir gyda ffermydd gwasgaredig. Mae yno goed aeddfed mewn gwrychoedd a lleiniau coed cysylltiedig â chymoedd bach a chul a darnau o brysgwydd. Mae'r nant sy'n porthi cronfa ddŵr Llys-y-frân ac ymlaen i Afon Cleddau yn tarddu yn yr ardal. Mae'n cynnwys anheddiad Castell Henri a Maenclochog yn rhannol ac mae i'r gogledd o gronfa ddŵr Llys-y-frân.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaearog sylfaenol yn bennaf yw llechen waddodol Ordofigaidd sy'n ffurfio tir o bant a bryn gyda dyddodion rhewlifol a ffinrewlifol yn enwedig ar orlifoedd afonydd. Mae gweithred afonol bresennol wedi creu gwelyau afonydd hiciog.
- Ffurfiwyd y patrwm anheddu o bentrefi bach a phentrefannau gwasgaredig, bob yn ail â ffermydd a chymharol ychydig dai annedd ar eu pennau'u hunain.
- Mae darnau o brysgwydd a choetir brynau'r ucheldir bob yn ail â thiroedd amaethyddol amgaeedig sydd mewn cyflwr gwell ond heb eu rheoli'n ddwys lle mae caeau rheolaidd ac afreolaidd bach i gymedrol yn nodweddiadol gyda rhai llain-gaeau canoloesol creiriol. Terfynau caeau'n gyffredinol yw cloddiau gyda gwrychoedd a choed aeddfed achlysurol arnynt.
- Yn ddiwylliannol mae'n ffurfio rhan o boblogaeth ddwyieithog o gymunedau Cymraeg a Saesneg lle mae'r Gymraeg yn fwy tebygol o fod yn iaith gyntaf, ac enwau lleoedd Cymraeg yn gyffredin.
- Mae ffermydd yn cadw grwpiau cnewyllol tynn o adeiladau fferm ar raddfa fach.
- Yn yr ardaloedd sy'n ffinio â chronfa ddŵr Llys-y-frân mae defnydd adloniadol disyllw ar gyfer y gymuned ac ymwelwyr gyda chymorth rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus at y gronfa ddŵr.
- Mae'r dirwedd hanesyddol yn cynnwys meini hirion cynhanesyddol, safleoedd amddiffyn a chlostir a thomen castell canoloesol, amddiffynfa fwnt a maen croes, a dim adeiladau rhestredig. Er bod Castell Henri'n tarddu o'r canoloesoedd gydag eglwys ganoloesol mae bellach yn cael ei gynrychioli gan ddatblygiad gwasgaredig ynghyd â bythynnod a thai mwy gwasgaredig. Mae tarddiad Comin Cas-fuwch, ardal o rostir, cors a thir prysgog, yn y canoloesoedd.
- Cynefin i raddau helaeth yw glaswelltir wedi'i wella gydag ychydig o laswelltir wedi'i led-wella, porfa gorslyd, prysgwydd, corstir a chaeau âr.

Rhinweddau Allweddol

Golygfeydd benthg o Fynydd Preseli tua'r gogledd yw cefnlen yr ardal hon, gan gyfrannu'n gryf at yr ymdeimlad o le trwy gyfoethogi'r ymdeimlad o gysylltiad â'r ucheldiroedd. Erys llonyddwch draw o'r B4329, sy'n croesi'r ardal cyn mynd dros Fynydd Preseli i'r gogledd-ddwyrain. Mae darnau o dir comin, dyffrynnoedd coediog a phrysgwydd o fewn brithwaith o gaeau rheolaidd ac afreolaidd, gan gynnwys llain-gaeau canoloesol creiriol, yn awgrymu rheoli a moderneiddio amaethyddiaeth yn llai dwys, gyda therfynau caeau traddodiadol o wrychoedd a chloddiau'n bennaf yn aros ochr yn ochr ag adeiladau amaethyddol bach.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae cadw patrwm caeau afreolaidd a rheolaidd, cloddiau a ffermydd cnewyllol bach yn creu ymdeimlad o reoli tir yn llai dwys.
- Codi mastiau telathrebu.
- Er ei bod oddi allan i'r ardal, mae'r gronfa ddŵr wedi dylanwadu ar reoli tir cyfagos a chreu gweithgaredd adloniadol sy'n ymestyn i'r ardal hon.



Yr olygfa i'r dwyrain i mewn i Faenclochog



Cadw peiriannau amaethyddol a pheiriannau eraill ar fin y ffordd

Y Dyfodol

- Pwysau i gyflwyno datblygiadau ynni adnewyddadwy mawr gydag effaith weledol o ganlyniad mewn mannau agored.
- Pwysau i ddwysáu rheoli amaethyddol a chyfuno caeau bach, a draenio ardaloedd gwlypach.



Adeiladau fferm ger Castell Henri



Rheoli cloddiau amrywiol ger Maenclochog

Pethau Sensitif Allweddol

- Colli patrymau caeau neilltuol gan gynnwys llain-gaeau creiriol.
- Cymeriad naturiol planhigion ucheldir gan gynnwys tiroedd comin, darnau o borfa arw a phorfa gorslyd.
- Tirweddau agored mewn perygl o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy mawr mewn mannau amhriodol.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Dal i reoli gwrychoedd a therfynau'n briodol.
- Gwrthwynebu cyflwyno planhigfeydd conwydd yn yr ardal.
- Annog defnydd adloniadol priodol o'r tir dan reolaeth Dŵr Cymru a gwell mynediad at gefn gwlad y tu hwnt.
- Sicrhau nad yw datblygiadau ynni adnewyddadwy'n tremio dros ardaloedd agored.



Ymyl pentref Tufton o'r gogledd



Rheoli gwrychoedd a phrysgwydd




Clawdd gyda choed aeddfed

ACT Awdurdodau Cyfagos
APCAP: ACT 28 Daugleddau

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 18: CYMOEDD CLEDDAU DDU

Lleoliad:

Mae'r ardal hon ar ymyl dwyreiniol Sir Benfro, am y ffin â Sir Gâr.



Yr olygfa i'r de ger y Mot



Yr olygfa i'r de ger Llanycefn



Yr olygfa i'r gogledd dros ddwyrain Cleddau Ddu o bont Llwyn-dwfr

Disgrifiad Cryno:

Yr ACT hon yn gyffredinol yw brithwaith amaethyddol ucheldir o gaeau gyda gwrychoedd aeddfed a lleiniau coetir cysylltiedig â chymoedd afonydd bach. Mae'n cynnwys pentrefi Llandysilio-yn-Nyfed a'r Mot, a phentrefannau bach a thai annedd ar eu pennau'u hunain. Mae cronfa ddŵr a pharc gwledig Llys-y-frân yn arwain at Afon Syfynwy ac, ynghyd â Chleddau Ddu, mae'n llifo tua'r de i gyfeiriad Daugleddau.

Nodweddion Allweddol

- Y ddaearog sylfaenol yn bennaf yw llechen Ordofigaidd ar draws bryniau tir isel gyda chreigwely suddedig yn cynnwys Ordofigaidd. Lle mae prosesau afonol yn drech, mae gwaddodion ar yr wyneb o dywod a gro rhewlifol a phen ffinrewlifol yn bresennol mewn mân sianelau dŵr tawdd rhewlifol.
- Y dirwedd amaethyddol yw brithwaith mân o gaeau amaethyddol ucheldir gyda gwrychoedd aeddfed a lleiniau coetir, gan gynnwys planhigfeydd conwydd dolennog, cysylltiedig â cymoedd afonydd bach sy'n cynorthwyo diffinio cymeriad a theimlad amgaeedig yr ardal.
- Mae anheddau'n gyfyngedig, ac yn cynnwys ffermydd a phentrefannau gwasgaredig, gyda defnydd amrywiol o ddeunyddiau, gan gynnwys rhai adeiladau carreg traddodiadol wedi'u rendro ac adeiladau amaethyddol mwy modern o lenfetel nad ydynt yn gyffredinol yn amlwg yn y dirwedd.
- Mae cynefinoedd dyffrynnoedd coediog afonydd deniadol o gryn amwynder yn ogystal â gwerth i fywyd gwyllt. Mae gorchudd coetir yn gymharol drwchus ac yn cadw cymysgedd o rywogaethau. Y dirwedd amaethyddol yn bennaf yw glaswelltir wedi'i wella gydag ychydig o dir âr. Ger y gronfa ddŵr, mae dŵr a glaswelltir amwynder a choetir llydandail yn debygol o fod o bwys i rywogaethau LBAP.
- Y patrwm ffyrdd yw mân lonydd at ei gilydd gyda'r A478 yn croesi'r ardal rhwng gogledd a de wrth fynd drwy Landysilio-yn-Nyfed.
- Yn ddiwylliannol mae rhan ddeheuol yr ardal o fewn ardal ehangach gyffredinol y 'Landsger' gyda chymunedau Saesneg at ei gilydd yn draddodiadol. Ymhellach i'r gogledd, mae enwau lleoedd a chymunedau'n fwy dwyieithog. Yn ddiwylliannol mae godreion Mynydd Preseli'n gysylltiedig ag adloniant, fel y mae cronfa ddŵr Llys-y-frân gyda'i nodwedd argae o werth diwylliannol.
- Mae'r dirwedd hanesyddol yn amrywiol ac yn cynnwys llociau cynhanesyddol, tomen a beili, caer gynhanesyddol a beili, eglwysi ac anheddau o'r canoloesoedd (Meilir Sant yn Llys-y-frân), er eu bod yn dyddio'n bennaf o'r 19^{eg} ganrif.

Rhinweddau Allweddol

Mae golygfeydd benthg o Fynydd Preseli'n ychwanegu at ymdeimlad cryf o le, fel y gwna golygfeydd i mewn i'r ardal o dir uwch. Mae ffermydd gwasgaredig, tramwyfeydd afonydd coediog aeddfed ar hyd cymoedd a gwrychoedd aeddfed a phrysgwydd yn y dirwedd amaethyddol ehangach yn creu ansawdd naturiol mewn tirwedd reoledig fel arall. Yn y dyffrynnoedd mae teimlad cysgodol llonydd ac amgaead sy'n cael ei greu gan goetir llydandail. Caiff yr ymdeimlad o le ei ddiffinio gan dramwyfeydd Cleddau Wen ac Afon Syfynwy yn y dirwedd amaethyddol ehangach sy'n cael ei gyfoethogi gan goed aeddfed ar hyd afonydd ac mewn gwrychoedd. Tra bo'r gronfa ddŵr yn beth prin yn Sir Benfro, mae ei gwerth adloniadol yn gynnil a heb ei reoli'n ddwys gan gadw cymeriad llonydd a theimlad ucheldirol mewn golygfeydd i'r dwyrain.

Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

Ddoe a Heddiw

- Mae dyfodiad planhigfeydd conwydd wedi creu diddordeb gweledol ychwanegol, er bod hynny wedi arwain at ddirywiad gweledol y dirwedd at ei gilydd.
- Mae chwareli blaenorol yn difetha golygfeydd lleol.
- Ni reolwyd tiroedd amaethyddol amgaeedig yn ddwys ac maent yn cadw teimlad ucheldirol.

- Mae'n ymddangos bod coetir yn cael ei reoli'n briodol gan gynnwys ardaloedd conifferaidd fel coedwigaeth gynhyrchiol.
- Mae deunyddiau adeiladu'n cynnwys bythynnod carreg traddodiadol wedi'u rendro. Yn gyffredinol mae ychwanegiadau modern yn cael eu hadeiladu'n unol â'r rhain trwy rendro brics neu flociau. Mae yno adeiladau amaethyddol llai deniadol, gan gynnwys ysguboriau mawr gyda gorchuddion llenfetel, er bod hynny'n gyffredinol mewn ffermydd cnewyllog.
- Dyfodiad cronfa ddŵr ac argae Llys-y-frân a boddi'r cwm o ganlyniad.
- Mae meysydd carafanau i'w gweld ar ymylon anheddau.



Y fynedfa orllewinol i'r Mot



Porfa gorslyd

Y Dyfodol

- Pwysau cynyddol am ddatblygiad adloniadol a masnachol yn Llys-y-frân.
- Gallai rheoli, cynaeafu ac ailblannu planhigfeydd conwydd effeithio ar gymeriad y dirwedd.
- Pwysau i ddwysáu amaethyddiaeth ac effaith ar batrymau caeau o ganlyniad, a chyflwyno adeiladau amaethyddol ychwanegol.
- Pwysau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy mewn mannau agored.



Yr olygfa i'r gogledd ger Pen-ffordd



Llawr dyffryn coediog

Pethau Sensitif Allweddol

- Effeithiau all fod ar yr ucheldir at ei gilydd a chymeriad rheoli isel.
- Patrwm anheddu gan gynnwys ffermydd gwasgaredig a thai annedd ar eu pennau'u hunain.
- Cyflwyno graddfa amhriodol o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.
- Dwysáu datblygiadau meysydd carafanau

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Rheoli er mwyn gwerth ecolegol, mynediad adloniadol dan reolaeth dda, gan gynnwys y gronfa ddŵr fel adnodd adloniadol gyda gwerth amwynderol arbennig.
- Cadw cymeriad ucheldir a naturiol.
- Caniatáu i chwareli segur / cwsgraildyfu naturiol pan fydd modd.
- Sicrhau rheolaeth barhaol o goetiroedd a gwrychoedd i gadw'u presenoldeb yn y dirwedd.



Adeilad fferm gyda deunyddiau cymysg



Pentref Llandysilio-yn-Nyfed





Maes carafanau

ACT Awdurdodau Cyfagos
APCAP: dim
Sir Gâr: dim

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 19: ARBERTH A BRO LLANBEDR

Lleoliad:

Mae'r ardal hon yn nwyrain Sir Benfro am y ffin â'r Parc Cenedlaethol i'r de ac i'r gorllewin a Sir Gâr i'r dwyrain.



Yr olygfa i'r gorllewin ger Bethesda



Yr olygfa i'r de oddi ar yr A40 i'r gorllewin o Benblewys



Golygfeydd o'r môr tua'r de o fan ger Yr Eglwys Lwyd

Disgrifiad Cryno:

Mae'r ardal hon yn cynnwys tref wledig Arberth, gyda thirwedd amaethyddol fryniog o'i hamgylch. Mae llwybrau teithio arwyddocaol yn croesi'r ardal gan gynnwys yr A40(T), yr A478 a rheilffordd. Ymhlith datblygiadau twristiaeth sylweddol mae parc thema Oakwood, rhan o bentref gwyliau Bluestone, a rhan o barc antur a sw Folly Farm. Gwasgarwyd pentrefi gwledig distaw ac anheddau llai drwy'r ardal gyfan. Yn y de mae planhigfeydd conwydd a chymoedd nentydd coediog yn gorgyffwrdd.

Nodweddion Allweddol

- Y ddadareg yn bennaf yw cyfres o gribau graddol o lechi Ordofigaidd a Silwraidd a Hen Dywodfaen Coch yn rhedeg rhwng dwyrain a gorllewin. Mae afonydd aeddfed, yn tarddu o dir uwch i'r de o

Fynydd Preseli yn llifo i'r gorlifoedd eang gyda lloriau o fariandir. Mae yno ddarnau o ddyddodion rhewlifol a ffinrhwylfodol yn cynnwys tywod a gro ar lethrau graddol.

- Cynefinoedd yn bennaf yw glaswelltir wedi'i wella gyda darnau cyfyngedig o dir â, coetir llydanddail lled-naturiol a choetir coniferaidd planedig. Mewn mannau, yn enwedig ger Afon Cleddau ym Mynwar, i'r gorllewin o'r Eglwys Lwyd ac ar hyd gwaelodion cymoedd afonydd, coetir sydd bennaf. Mae cloddiau blodeuog ar lonydd a choetir cysylltiedig â nentydd bychan yn creu cynefin amrywiol.
- I raddau helaeth mae patrwm anheddu'n canoli o gwmpas tref wledig Arberth a'i chefn gwlad eang, ffermydd gwasgaredig, pentrefannau a thai annedd ar eu pennau'u hunain ymhobman. Mae dylanwad datblygiadau twristiaeth a llety ymwelwyr ar raddfa fawr hefyd ac maent yn gyffredinol mewn tirwedd o ffermydd llawr gwlad.
- Tra ffurfiwyd yr ardal hon i raddau helaeth o dir amaeth bras a chymunedau Saesneg, mae tref farchnad hanesyddol Arberth yn gweithredu fel canolbwynt o fewn y dirwedd amaethyddol ehangach ac, yn ddiwylliannol, mae'n gyrchfan ymwelwyr llawn mynd ac yn gymuned leol fywiog gref. Mae rhannau o gyrchfannau gwyliau Bluestone, Folly Farm ac Oakwood yn yr ardal ac, yn yr ardal ddeheuol, dylanwadwyd ar y diwylliant gan y cylch mwyngloddio a diwydiant blaenorol o gwmpas Cilgeti. Mae'r rhwydwaith priffyrdd a rheilffyrdd o ddylanwad lleol yn croesi'r ardal.
- Mae'r ardal hon yn cynnwys tirwedd hanesyddol gyfoethog ac amrywiol yn rhychwantu cyfnodau cynhanesyddol i ddiweddar a thoreth o archeoleg gofnodedig, o bob cyfnod, gan gynnwys henebion angladdol a defodol cynhanesyddol, ceirdd yr oes haearn, cestyll ac eglwysi canoloesol, pontydd ac adeiladau ôl-ganoloesol a chwareli segur. Mae llain-gaeau canoloesol creiriol i'w gweld yn yr ardal gan gynnwys Cold Blow, Tredeml a Thafarn Ysbyty. Caiff holl fathau o ffermydd a thai eu cynrychioli. Ymhlith adeiladau rhestredig mae eglwysi canoloesol, capeli o'r 19eg ganrif, a cherrig milltir ar hyd y ffordd dyrpeg.

Rhinweddau Allweddol

Fe all pentrefi gwledig distaw deimlo'n ddeniadol a chysgodol gydag ychydig o anheddiad dynol, tir amaeth cymysg gyda chloddiau blodeuog ar hyd mân lonydd a darnau o goetir cysylltiedig â nentydd bychan mewn tirwedd o ffermydd llawr gwlad, greu ymdeimlad cryf o le a llonyddwch gwledig. Mewn mannau eraill, fodd bynnag, caiff yr ymdeimlad hwn ei leihau gan sŵn a dylanwadau gweledol priffyrdd a rheilffordd sy'n creu golygfeydd anneniadol. Daw traffig yn teithio drwy'r ardal neu'n ymweld â'i hatyniadau ymwelwyr â sŵn ac aflonyddwch. Mae peilonau mawr i'r de o'r ardal yn difetha'r olygfa'n sylweddol ac, i raddau llai, i feysydd carafanau a golygfeydd allan ar dyrbinau.

Mae Parc Hamdden Oakwood, Pentre Bluestone a Folly Farm yn rhannol yn yr ardal gan daro ar y cymeriad gwledig a chreu llygredd goleuni ond maent yn arwyddocaol yn ddiwylliannol ac yn cynnwys atyniadau ymwelwyr o fri cenedlaethol. Saif tref farchnad Arberth ar dir uwch yn lleol ac mae'n creu ymdeimlad cryf o le o fewn y cefn gwlad ehangach.

Mae golygfeydd o'r môr o dir uwch tua'r de a mwy o feysydd carafanau a gwersylla, rhai ohonynt yn amlwg yn y dirwedd, yn creu cysylltiad â'r arfordir.

Newid y Dirwedd

Ddoe a Heddiw

- Planhigfeydd conwydd wedi'u cyflwyno i'r gogledd o'r ardal.
- Datblygwyd meysydd carafanau i'r de o'r ardal yn arbennig.

Asesiad o Gymeriad Tirwedd Sir Benfro

- Mae chwareli tywodfaen a chalchfaen yn yr ardal yn cael effaith gyfyngedig y tu hwnt i gylchoedd lleol.
- Daliodd atyniadau ymwelwyr i ddatblygu a thyfu a chreu atyniadau o fri cenedlaethol.
- Mae peilonau mawr yn croesi de'r ardal.
- Mae tyrbinau mawr yn yr ardal, a golygfeydd o dyrbinau mawr oddi allan i'r ardal.



Yr A40 ger Penblewyn



Cloddiaid ffordd ar hyd yr A477 ger Longstone

Y Dyfodol

- Effeithiau dwysáu arferion amaethyddol a phwysau i ehangu anheddau ar y brithwaith amaethyddol.
- Posiblirwydd datblygu mwy o beilonau i wella cysylltiadau â'r grid cenedlaethol.
- Datblygu ynni adnewyddadwy ychwanegol ar dir uwch.
- Pwysau i ehangu a dwysáu / arallgyfeirio atyniadau a llety ymwelwyr, gan gynnwys meysydd carafanau, bythynnod, pabell a sales.



Peilonau'n croesi de'r ardal



Tref Arberth

Pethau Sensitif Allweddol

- Posibilrwydd erydu llonyddwch a chymeriad gwledig draw o brif ddifethwyr gweledol a sŵn presennol.
- Dwysáu effaith llety, cyfleusterau ac atyniadau ymwelwyr a'u heffaith ar gymeriad.

Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella

- Cuddio'r rheilffordd a'r briffordd ar bob cyfle.
- Dylid adfer planhigfeydd conwydd a gynaeafwyd i goetir llawn rhywogaethau brodorol lle bo modd.
- Gwrthwynebu datblygiad nad yw'n adlewyrchu cymeriad gwledig yr ardal hon, a'i phensaernïaeth frodorol a deunyddiau traddodiadol.
- Gwrthwynebu llety ymwelwyr mewn mannau amhriodol gan gynnwys carafanau sefydlog a theithiol a bythynnod a chadw cyfleoedd i drosi adeiladau fferm segur.
- Gwrthwynebu datblygu dideimlad o beilonau a thyrbinau mawr ychwanegol.



Tyrbin ger Princes Gate



Mynedfa maes carafanau



Gorsaf drenau Clunderwen

ACT Awdurdodau Cyfagos
APCAP: ACT 28 Daugleddau; ACT 1 Arfordir Cyfannedd Saundersfoot